Cyngor Cymuned
EGLWYS BACH
Community Council

**Cofnodion Cyfarfod 02-11-21 – 7.30pm**

**(Cyfarfod Skype)**

| | |
|---|---|
| **Presennol** | Cynghorwyr Gwilym Williams (Cadeirydd), Wendy Williams, John Emlyn Jones, Ceri Leeder, John Lloyd Williams, Gwenan Roberts, Geraint Owen, Gwyn Jones, Arthur Williams a Delyth Wynne (Clerc) |
| **Ymddiheuriadau** | Austin Roberts |

1. **CROESO**

   Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorwyr i'r cyfarfod.

2. **YMDDIHEURIADAU**

   Noder uchod.

3. **DATGAN DIDDORDEB**

   Dim.

4. **COFNODION** – Cadarnhau ac arwyddo cofnodion y cyfarfod diwethaf (12/10/21).

   Cynigwyd cofnodion 12/10/21 yn gywir gan Cyng John Lloyd ac eiliwyd gan Cyng Wendy.

5. **MATERION YN CODI**

   - **Cae Chwarae:**

     Mae angen arwydd i roi gwybod i ddefnyddwyr y ramp beiciau eu bod yn ei ddefnyddio ar 'eu risg eu hunain'. Hefyd arwydd 'dim cŵn' i'w ymgorffori yn yr un arwydd. Y Clerc i gysylltu â David Dudley, Arolygydd Parciau.

   - **Toiledau'r Pentref:**

     Y Clerc wedi derbyn swydd ddisgrifiad a rhestr o ddyletswyddau gan CBSC. Angen edrych arno a'i newid cyn hysbysebu'r swydd – Cynghorwyr Gwyn a Gwilym i edrych arnynt.

     Y Clerc i gysylltu â Kerry, CBSC i ofyn am ein cyfrifoldebau cyflogaeth fel Cyngor.

Ymunodd Cyng Geraint â'r cyfarfod am 7.37pm.

- **Mynwent y Cyngor:**

  - Y Clerc wedi siarad gyda'r torrwr gwair ac wedi trafod y materion a godwyd;
  - £150 yr un ydy cost plot amlosgiad. Cafwyd trafodaeth. Cyng Geraint yn cynnig bod y teulu yn talu'r ymgynghorwr yn syth am y plot. Cyng John Emlyn eilio. Yr holl Gynghorwyr yn cytuno;
  - Arian gwirfoddol tuag at dorri'r glaswellt - rhannodd y Clerc ymateb Un Llais Cymru;
  - Llythyr o gŵyn am y fynwent - y Clerc i ymateb;
  - Angen cysylltu a'r cwmni ynglŷn â'r canllaw sydd dal yn wlyb;
  - Y llwybr i'r fynwent yn llithrig eto, Cyng John Lloyd am ei drin.

- **Hedfan y Llu Awyr Brenhinol dros y pentref:**

  Trafodaeth ynglŷn â sŵn y hedfan parhaus. Awgrymwyd bod preswylwyr yr effeithir arnynt yn ysgrifennu at y Llu Awyr Brenhinol ac yn cadw cofnod o'r amseroedd a'r dyddiadau.

- **Dydd Sul y Coffa:**

  14 Tachwedd – cafwyd trafodaeth am y trefniadau.

- **Nadolig 2021:**

  - Penderfynwyd cynnal cystadleuaeth Ffenestr Nadolig arall – trefniadau i'w cwblhau.
  - Cyng Arthur i ofyn am goeden o Bodnant. Cynghorwyr yn hapus i dalu hyd at £150 os oes angen.
  - Trafodaeth ynghylch Parti Nadolig y Cyngor Cymuned. Y Clerc i wneud ymholiadau gyda'r Bee neu Tal y Cafn ynghylch 14 Rhagfyr.

- **Gwaith newydd arfaethedig ym mynwent yr eglwys:**

  Dangosodd Cyng Ceri fap o'r gwaith arfaethedig. Cynghorwyr o blaid y cynigion ac uwchraddio'r llwybr i'r fynwent newydd.

- **Polisi Tai Cartrefi Conwy:**

  Mae'r Clerc wedi ysgrifennu atynt ac yn aros am ymateb.

- **Awdit 20/21:**

  Rhoddodd y Clerc y wybodaeth ddiweddaraf am yr archwiliad a dywedodd yr hoffai fynychu unrhyw gyrsiau ariannol a oedd ar gael i ehangu ei sgiliau. Cytunodd y Cynghorwyr i'w chais.

6. **CYNLLUNIO**

Dim.

7. **ADRODDIAD ARIANNOL**

Cyfredol - £7,035.88 (angen talu Ceri Leeder - £20.00)
Angladdau - £807.70 (angen talu Gerallt Evans Metalcraft Ltd - £912.00 / Carwyn Hughes, Pen Bryn - £408.00)
Cadw - £2,078.31

Gofynnodd y Clerc am ganiatad i syumud £1000.00 o'r cyfrif Cyfredol i'r cyfrif Angladdau fel bod anfonebau yn gallu cael eu talu. Cytunodd y Cynghorwyr i'r cais.

**Taliadau Ar-lein:**
**Cyfredol:**
- Delyth Wynne (Clerc) - £200.00
- Torch Pabi - £45.00

**Angladdau:**
Dim.

Angen dadansoddiad ariannol erbyn y cyfarfod nesaf i edrych ar wariant cyn praesept mis Ionawr.

8. **GOHEBIAETH**

- **E-Bost: Un Llais Cymru - Pecynnau KWT:**
Noder er gwybodaeth. Cyng John wedi son wrth yr ysgol ac am edrych arno yn fwy manwl.

- **E-Bost: Un Llais Cymru - COP Cymru 2021 – pecyn Cymorth i randdeiliaid:**
Noder er gwybodaeth.

- **E-Bost: Un Llais Cymru - Gweirgloddau Gwych Cymru - Gweminar Plantlife:**
Noder er gwybodaeth.

- **E-Bost: CBSC - Cymunedau Gwyrdd:**
Noder er gwybodaeth. Cyng John wedi son wrth yr ysgol ac am edrych arno yn fwy manwl.

- **E-Bost: Llywodraeth Cymru – Ymgynghori:**
Noder er gwybodaeth.

- **E-Bost: Llywodraeth Cymru – Cylchlythyr Gwlad:**
Noder er gwybodaeth.

- **E-Bost: Cartrefi Conwy – Cymorth annibynnol fi:**
Noder er gwybodaeth.

9. **UNRHYW FATER ARALL**

- Bwrdd Gwybodaeth – Cyng Gwilym i gael golwg ar y polyn.
- Ffordd yr ysgol i'r Efail – tyllau yn y ffordd.
- Clawdd rhwng Bodnod ac adeilad newydd Bodnant angen ei dorri a ceir dal yn parcio tu allan i'r adeilad newydd.
- Biniau halen angen eu llenwi. Bin halen yn gwaelod Ffordd Gyffylog yn y clawdd.
- 'Annibynnol Fi' wedi cael ei ddosbarthu i'r Coffi Stop.
- Dwr yn dod o'r cae ac yn dod lawr i groesffordd wrth Ty'n Twll wrth ddod o Rhandir. Angen agor y ffoes.
- Llwybyr o'r Efail i Bont Bellaf, Ffordd Bryn Hir, llwybyr yn gul.

10. **DYDDIADAU'R CYFARFODYDD NESAF**

07/12/21
04/01/22
01/02/22
01/03/22
05/04/22
03/05/22
07/06/22
05/07/22
06/09/22
04/10/22
01/11/22
06/12/22

Daeth y cyfarfod i ben am 9.12 o'r gloch.